Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

ELL 19-01(p.8) Cyfarwyddyd

# CYMHELLION HYFFORDDI ATHRAWON YNG NGHYMRU

# BLWYDDYN ACADEMAIDD 2001/02

*Gwybodaeth i Hyfforddeion*

CYMHELLION HYFFORDDI ATHRAWON YNG NGHYMRU
BLWYDDYN ACADEMAIDD 2001/02 -
GWYBODAETH I HYFFORDDEION

## CYFLWYNIAD

Mae'r daflen hon yn darparu gwybodaeth am y cymhellion hyfforddi athrawon. Mae'n rhoi amlinelliad o'r cyllid sydd ar gael, pwy sy'n gymwys i gael grant, a sut y gwneir y taliadau.

Mae'n berthnasol i hyfforddeion sydd, rhwng Medi 2001 ac Awst 2002, yn dechrau cwrs o hyfforddiant cychwynnol athrawon, a gyflwynir gan ddarparwr achrededig hyfforddiant athrawon, ac yn arwain at Statws Athrawon Cymwysedig (SAC).

Os hoffech ofyn unrhyw gwestiwn, cysylltwch â

Katharine Cannan
Yr Is-adran Addysgu ac Arwain
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 5171
Ffacs: 029 2082 6109

e-bost: teachingenquiries@wales.gsi.gov.uk

# CYMHELLION HYFFORDDI ATHRAWON YNG NGHYMRU BLWYDDYN ACADEMAIDD 2001/02 - GWYBODAETH I HYFFORDDEION

**Cynnwys**


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| | <u>Crynodeb o'r Cynllun</u> | |
| 1. | Cymhellion hyfforddi athrawon blwyddyn academaidd 2001/02: crynodeb | 3 |
| | <u>Grantiau hyfforddi</u> | |
| 2. | Cymhwyster ar gyfer grantiau hyfforddi | 4 |
| 3. | Pa grantiau y dylid eu talu | 5 |
| 4. | Pa bryd y dylid gwneud taliadau | 6 |
| 5. | Sut y telir y grantiau hyfforddi | 6 |
| | <u>Grantiau addysgu</u> | |
| 6. | Y grantiau addysgu: crynodeb | 7 |
| 7. | Meini prawf cymhwyso ar gyfer athrawon sy'n gweithio yng Nghymru | 8 |
| 8. | Eithriadau i'r terfyn amser ar gyfer cymhwyso am grantiau addysgu | 9 |
| 9. | Sut y telir y grantiau addysgu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 9 |
| 10. | Trefniadau ar gyfer athrawon sy'n gweithio yn Lloegr | 10 |
| Atodiad 1 | <u>Cwestiynau technegol</u> | 11 |

CYMHELLION HYFFORDDI ATHRAWON YNG NGHYMRU
BLWYDDYN ACADEMAIDD 2001/02 -
GWYBODAETH I HYFFORDDEION

## Crynodeb o'r Cynllun

### *1. Cymhellion hyfforddi athrawon blwyddyn academaidd 2001/02: crynodeb*

1.1 Mae'r cymhellion hyfforddi athrawon yn cynnig grantiau o £6,000 i hyfforddeion ar gyrsiau ôl-raddedig o hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru (sef y "grant hyfforddi"). Rhaid i'r cwrs arwain at Statws Athrawon Cymwysedig; rhaid iddo gychwyn rhwng Medi 2001 ac Awst 2002; a rhaid i'r cwrs gael ei gynnal gan ddarparwr achrededig hyfforddiant cychwynnol athrawon.

1.2. Mewn pynciau lle mae prinder athrawon (mathemateg lefel uwchradd, ieithoedd tramor modern, gwyddoniaeth a Chymraeg) bydd £4,000 ychwanegol (sef y "grant addysgu") yn daladwy i'r hyfforddeion hynny sy'n cwblhau eu blwyddyn gyntaf o addysgu yn llwyddiannus, ac yna'n parhau i addysgu'r pynciau hynny.

1.3. Cytunodd y Cynulliad a'r Adran Addysg a Sgiliau ar drefniadau talu cilyddol ar gyfer yr elfen "addysgu" yn y grantiau uchod. Golyga hyn, pan gynigir grantiau cyfwerth, y gall athrawon sydd newydd gymhwyso ac yn ymgymryd â swyddi addysgu yng Nghymru neu yn Lloegr, hawlio'u grant addysgu (a elwir yn 'Helo Euraid' yn Lloegr), waeth ai yng Nghymru ynteu yn Lloegr yr hyfforddwyd hwy, cyn belled â'u bod yn bodloni'r meini prawf cymhwyso yn y wlad lle mae'r athrawon yn addysgu.

1.4. Rhoddir manylion llawn isod ynglþn â chymhwyso ac amodau'r grant. Dylid darllen y nodiadau cyfarwyddyd yn eu cyfanrwydd er mwyn cael cadarnhad a oes grant ar gael.

CYMHELLION HYFFORDDI ATHRAWON YNG NGHYMRU
BLWYDDYN ACADEMAIDD 2001/02 -
GWYBODAETH I HYFFORDDEION

## Grantiau hyfforddi

## *2. Cymhwyster ar gyfer grantiau hyfforddi*

2.1. Mae'r grant hyfforddi o £6,000 ar gael i rai sy'n dechrau cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon ôl-raddedig yng Nghymru rhwng Medi 2001 ac Awst 2002. Rhaid i'r cyrsiau arwain at ddyfarnu Statws Athrawon Cymwysedig. Mae'r grantiau ar gael ar gyfer cyrsiau rhan-amser yn ogystal â chyrsiau llawn-amser.

2.2. **Ni fydd pawb yn gymwys i gael grant hyfforddi**. **Nid** oes hawl gan y canlynol i gael grant hyfforddi o dan y rheolau hyn:-

- Athrawon cymwysedig.
- Hyfforddeion sy'n dilyn cwrs ar gyfer israddedigion, beth bynnag fo'i hyd.
- Hyfforddeion sy'n dilyn cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion mewn Addysg Bellach – cyflwynwyd cynllun ar wahân a allai fod yn berthnasol i rai o'r myfyrwyr hyn.
- Hyfforddeion sy'n dilyn unrhyw gwrs a ddechreuodd cyn Medi 2001.
- Hyfforddeion sydd wedi cwblhau cwrs a ddechreuodd cyn Medi 2001, ond yn aflwyddiannus.
- Unrhyw un a gyflogir i addysgu mewn unrhyw ysgol neu sefydliad addysg arall (ac nad yw'n athrawes / athro cymwysedig).
- Cyfranogwyr yn y Rhaglen Athrawon Graddedig neu'r Rhaglen Athrawon Cofrestredig.
- Unrhyw un o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd ac Ardal Economaidd Ewrop.
- Unrhyw rai a gychwynnodd gwrs TAR uwchradd yn y flwyddyn academaidd 1999/2000, a roddodd y gorau i'r cwrs ar ôl 12 Ebrill 2000, a sy'n ailymuno â'r un cwrs, neu y mae'n rhaid iddynt ailsefyll rhan o'r cwrs hwnnw, onid oeddent wedi rhoi'r gorau i'w cwrs oherwydd:
    - eu bod yn feichiog;
    - eu bod yn sâl (byddai'n ofynnol i feddyg gadarnhau hynny);
    - eu bod yn gofalu am ddibynnydd, yn llawn-amser.

- Unrhyw rai a ddilynodd gwrs TAR cynradd yn y flwyddyn academaidd 2000/01, a roddodd y gorau i'r cwrs ar ôl 6 Tachwedd 2000, a sy'n ailymuno â'r un cwrs, neu y mae'n rhaid iddynt ailsefyll

rhan o'r cwrs hwnnw, onid oeddent wedi rhoi'r gorau i'w cwrs oherwydd:

- eu bod yn feichiog;
- eu bod yn sâl (byddai'n ofynnol i feddyg gadarnhau hynny);
- eu bod yn gofalu am ddibynnydd, yn llawn-amser.

- Unrhyw un sy'n ailsefyll rhan o gwrs cynharach.

2.3. Pan fo darparwr hyfforddiant cychwynnol athrawon yn mynnu bod hyfforddeion yn mynychu ysgol am gyfnod cyn bod yr hyfforddiant athrawon ffurfiol yn dechrau, mae'r hyfforddeion yn dal yn gymwys am grant hyfforddi, ar yr amod bod y cwrs ffurfiol yn dechrau ar ôl 31 Awst 2001.

## *3. Pa grantiau y dylid eu talu*

3.1. Ar gyfer cyrsiau un-flwyddyn, telir grant hyfforddi o £6,000 mewn naw rhandaliad misol o fis Hydref i fis Mehefin, y taliadau i'w gwneud yn ystod wythnos olaf pob mis. Bydd taliadau misoedd Hydref i Fai (yn gynwysedig) yn £650 yr un; a'r taliad olaf ym mis Mehefin yn £800.

3.2. Ar gyfer cyrsiau dwy-flynedd, bydd cyfanswm y grant hyfforddi a delir hefyd yn £6,000. Rhennir y swm hwnnw yn 18 rhandaliad misol, o fis Hydref i fis Mehefin yn y ddwy flynedd, a gwneir y taliadau yn ystod wythnos olaf pob mis. Bydd taliadau misoedd Hydref i Fai (yn gynwysedig) yn £325 yr un; a thaliadau misoedd Mehefin yn £400.

3.3. **Sylwer:** i ddibenion y taliadau grant, “wythnos olaf pob mis” yw'r wythnos olaf yn y mis sy'n cynnwys diwrnod gwaith (dydd Llun i ddydd Gwener).

3.4. **Mae rhai achosion arbennig.** Bydd y bobl sydd naill ai

(a) wedi rhoi'r gorau i hyfforddiant cychwynnol athrawon cyn 12 Ebrill 2000 ac yn dechrau eto ar ôl Medi 2001; neu

(b) sydd wedi cwblhau tymor o hyfforddiant llawn-amser yn llwyddiannus, wedi rhoi'r gorau i'r hyfforddiant cyn 12 Ebrill 2000 ac yna'n ailddechrau hyfforddiant llawn-amser gyda'r un darparwr ar ôl Medi 2001

yn gymwys i gael y grant hyfforddi. **<u>Ond</u>** gostyngir y grant hyfforddi a delir i'r bobl yn y categori (a) uchod sydd wedi rhoi'r gorau i gyrsiau ôl-raddedig o hyfforddiant cychwynnol athrawon mathemateg a gwyddoniaeth ar ôl Medi 1999, o swm unrhyw grant hyfforddi sydd eisoes wedi ei dalu iddynt. Nid yw'r bobl yn y categori (b) uchod, sydd wedi rhoi'r gorau i gyrsiau ôl-raddedig o hyfforddiant cychwynnol athrawon mathemateg a gwyddoniaeth ar ôl Medi

1999, yn gymwys i gael dim rhagor na'r y grant hyfforddi pellach, y byddent wedi ei gael yn unol â'r cynllun cymhellion mathemateg a gwyddoniaeth blaenorol.

3.5. Gostyngir y grant hyfforddi i unrhyw un sy'n rhoi'r gorau i gwrs uwchradd a ddechreuodd ar ôl 1 Medi 2000 ac yna'n dychwelyd i'r cwrs neu'n ailddechrau ar gwrs newydd, o swm unrhyw grant hyfforddi sydd eisoes wedi ei dalu iddynt.

3.6. Nid oes hawl gan unigolion, sy'n dod yn gymwys am daliadau trwy ymuno â chwrs sydd eisoes wedi dechrau, i ddim ond i'r taliadau misol hynny a ddaw'n ddyledus tra'u bod yn cael yr hyfforddiant a gwblheir yn y flwyddyn academaidd 2001-2002. Er enghraifft, pe bai rhywun yn ailymuno â chwrs ym mis Rhagfyr byddai hawl ganddo i daliadau Rhagfyr i Fehefin yn unig.

## *4. Pa bryd y dylid gwneud taliadau*

4.1. Dylid gwneud pob taliad yn ystod wythnos olaf y mis y daw'n ddyledus. Y darparwyr hyfforddiant ddylai benderfynu ar yr union ddyddiadau talu, gan gadw mewn cof y diffinnir yr "wythnos olaf ym mhob mis" fel yr wythnos sy'n cynnwys y diwrnod gwaith olaf yn y mis dan sylw. Hysbysir yr hyfforddeion gan eu darparwr hyfforddiant o'r dyddiad y gwneir y taliad iddynt bob mis.

4.2. Ni ddylid gwneud taliadau ac eithrio i fyfyrwyr sy'n dilyn y cwrs ar y dyddiad talu. Ni wneir taliad i unrhyw fyfyriwr sydd wedi rhoi'r gorau i'r cwrs cyn y diwrnod talu.

## *5. Sut y telir y grantiau hyfforddi*

5.1. Bydd yr hyfforddeion yn cael y grant gan eu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon.

5.2. Ar ddechrau eu cwrs, gofynnir i'r hyfforddeion lofnodi datganiad i'w galluogi i hawlio'u grant.

5.3. Ar ddiwedd y cwrs, bydd yn ofynnol i'r hyfforddeion lenwi a llofnodi ffurflen i gadarnhau eu bod wedi derbyn eu taliadau. Dylai cynrychiolydd y darparwr hyfforddiant hefyd lofnodi'r ffurflen hon.

## Grantiau Addysgu

### *6. Y grantiau addysgu: crynodeb*

6.1. Bydd grant addysgu'n daladwy i rai athrawon sydd newydd gymhwyso, a hyfforddwyd ar gyrsiau ôl-raddedig uwchradd a ddechreuodd ar ôl 1 Medi 2001.

6.2. Bydd y grant addysgu o £4,000 yn daladwy i athrawon a hyfforddwyd mewn pwnc uwchradd a ddynodwyd yn bwnc prinder yn Lloegr yn ogystal ag yng Nghymru, sydd hefyd yn addysgu'r pynciau hynny, unwaith y gallant ddangos eu bod yn bodloni'r amodau cymhwyso yn y wlad lle mae'r athrawon yn gweithio.

6.3. Y pynciau prinder cyfredol a ddynodwyd ar gyfer Cymru yn ogystal â Lloegr yw mathemateg, ieithoedd tramor modern, gwyddoniaeth, technoleg dylunio, technoleg gwybodaeth a Chymraeg.

6.4 I fod yn gymwys rhaid i'r athrawon sydd newydd gymhwyso fod wedi cael grant hyfforddi, fod wedi cwblhau eu blwyddyn gyntaf o addysgu'n llwyddiannus, ac yna'n parhau i addysgu eu priod bwnc. Mae'r mwyafrif ohonynt yn debygol o fodloni'r amodau cymhwyso hyn ar ddechrau eu hail flwyddyn o addysgu. Rhoddir rhagor o fanylion isod am y meini prawf cymhwyso a sut y gellir hawlio'r grantiau addysgu.

6.5 Mae'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Adran Addysg a Sgiliau wedi cytuno ar drefniadau cilyddol mewn perthynas â'r grantiau addysgu hyn. O ganlyniad, gall athro / athrawes sydd newydd gymhwyso ac yn dechrau addysgu mewn swydd yng Nghymru neu yn Lloegr, hawlio ei grant addysgu (a elwir yn 'helo euraid' yn Lloegr) yn y wlad lle y mae'n addysgu pan ddaw'n gymwys, waeth ym mha un o'r ddwy wlad yr hyfforddwyd ef /hi. Yn Lloegr, bydd unigolion sy'n dysgu Saesneg hefyd yn cael y grant addysgu, ar yr amod eu bod yn bodloni'r amodau perthnasol yno. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n ystyried gwneud Saesneg yn un o'r pynciau prinder sy'n gymwys am daliad o £4,000, ond ni wnaed penderfyniad hyd yma.

## *7. Meini prawf cymhwyso ar gyfer athrawon sy'n gweithio yng Nghymru*

7.1. Os yw'r athro / athrawes yn gyflogedig yng Nghymru ar yr adeg pan yw'n bodloni'r holl feini prawf cymhwyso, dylai hawlio'r taliad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

7.2 Er mwyn cymhwyso am grant addysgu, a delir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, rhaid i athro / athrawes fod:-

| | |
|---|---|
| **a.** | wedi ei hyfforddi mewn pwnc prinder uwchradd yn ystod y flwyddyn academaidd 2001-02, ac wedi cael grant hyfforddi; a |
| | |
| **b.** | wedi cwblhau blwyddyn academaidd lawn o addysgu yn llwyddiannus, o dan yr amodau canlynol :- |
| | |
| | **Naill ai** wedi cwblhau blwyddyn academaidd lawn o addysgu yn llwyddiannus yng Nghymru, o fewn 2 flynedd ar ôl dechrau'r flwyddyn academaidd gyntaf ar ôl iddo / iddi ennill Statws Athrawon Cymwysedig; |
| | |
| | **Neu** wedi cwblhau blwyddyn sefydlu lwyddiannus yn Lloegr, o fewn 5 mlynedd ar ôl dechrau'r flwyddyn academaidd gyntaf ar ôl iddo / iddi ennill Statws Athrawon Cymwysedig; |
| | |
| | **Neu'n** esempt o'r gofynion sefydlu oherwydd profiad addysgu yng Nghymru cyn symud i Loegr i gwblhau'r flwyddyn academaidd lawn gyntaf o addysgu **(**o fewn 2 flynedd ar ôl dechrau'r flwyddyn academaidd gyntaf ar ôl iddo / iddi ennill Statws Athrawon Cymwysedig). |
| | |
| **c.** | yn gyflogedig mewn swydd berthnasol o fewn 12 mis ar ôl cwblhau'r flwyddyn academaidd gyntaf o addysgu yn llwyddiannus. |
| | |
| | Mae swydd berthnasol yn :-<br>• swydd barhaol neu swydd ar gontract cyfnod penodedig sy'n hwy na phedwar mis. Nid yw addysgu llanw'n cymhwyso onid oes gan yr athro / athrawes gontract am gyfnod hwy na phedwar mis;<br>• yn swydd mewn ysgol uwchradd a gynhelir, neu mewn ysgol arbennig na chynhelir; ac<br>• yn swydd yn addysgu'r pwnc yr hyfforddwyd yr athro / athrawes ynddo. |

7.3. Rhestrir eithriadau i'r terfynau amser a nodwyd uchod yn adran 8 isod.

## *8. Eithriadau i'r terfyn amser ar gyfer cymhwyso am grantiau addysgu*

8.1. Mae adran 7 yn nodi'r terfynau amser ar gyfer cymhwyso am daliad yng Nghymru. Fodd bynnag, telir grant tu allan i'r terfynau hyn i athrawon yng Nghymru sydd o fewn cwmpas yr eithriadau canlynol:-

**8.2. Os yw athrawes yn feichiog:** estynnir y cyfnod rhwng ennill Statws Athrawon Cymwysedig a chwblhau'r flwyddyn gyntaf o addysgu llwyddiannus, o 2 flynedd i 3 blynedd os na all athrawes weithio oherwydd beichiogrwydd. Estynnir y cyfnod rhwng cwblhau'r flwyddyn gyntaf o addysgu llwyddiannus a chymryd swydd berthnasol, o 12 mis i 24 mis os na all athrawes weithio oherwydd beichiogrwydd.

**8.3. Os yw unigolyn yn sâl:** gellir estyn y cyfnod 2 flynedd rhwng ennill Statws Athrawon Cymwysedig a chwblhau'r flwyddyn gyntaf o addysgu llwyddiannus, o unrhyw gyfnod pan yw meddyg yn ardystio nad yw'r unigolyn yn alluog am resymau meddygol i weithio fel athro /athrawes. Gellir estyn y cyfnod 12 mis rhwng cwblhau'r flwyddyn gyntaf o addysgu llwyddiannus a chymryd swydd berthnasol, o unrhyw gyfnod pan yw meddyg yn ardystio nad yw'r unigolyn yn alluog am resymau meddygol i weithio fel athro /athrawes.

**8.4. Os yw unigolyn yn gofalu am ddibynnydd:** gellir estyn y cyfnod rhwng ennill Statws Athrawon Cymwysedig a chwblhau'r flwyddyn gyntaf o addysgu llwyddiannus o 2 flynedd i 3 blynedd yn achos unigolyn gyda chyfrifoldebau gofalu amser llawn. Gellir estyn y cyfnod 12 mis, rhwng cwblhau'r flwyddyn gyntaf o addysgu llwyddiannus a chymryd swydd berthnasol, o hyd at 12 mis ychwanegol yn achos unigolyn gyda chyfrifoldebau gofalu amser llawn.

## *9. Sut y telir y grantiau addysgu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru*

9.1. Telir y grant addysgu mewn un cyfandaliad, unwaith y bydd yr athrawon wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwyso a restrir yn adran 7.

9.2. Er mwyn hawlio'r taliad, dylai'r athrawon lenwi'r adran berthnasol o'r ffurflen a roddwyd iddynt yn ystod eu hyfforddiant. Dylent gyflwyno'r ffurflen i'r ysgol i'w llofnodi gyntaf, ac yna dylid ei hanfon at yr Awdurdod Addysg Lleol (AALl) am gadarnhad bod yr athro / athrawes yn bodloni'r amodau cyflogaeth.

9.3. Ar ôl ei llofnodi, bydd yr AALl yn anfon y ffurflen at Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd y Cynulliad wedyn yn talu'r grant addysgu'n uniongyrchol i gyfrif banc yr athro / athrawes.

## *10. Trefniadau ar gyfer athrawon sy'n gweithio yn Lloegr*

10.1. Dylai'r athrawon a hyfforddwyd yng Nghymru, ond a gyflogir yn Lloegr ar yr adeg pan fodlonir yr holl feini prawf cymhwyso, hawlio'u taliad gan ba bynnag Awdurdod Addysg Lleol sy'n eu cyflogi.

10.2. Pennir y meini prawf cymhwyso ar gyfer athrawon sy'n gweithio yn Lloegr gan yr Adran Addysg a Sgiliau. Gellir cael copi o'r meini prawf hynny trwy ysgrifennu at: The Teacher Recruitment and Supply Team, Department for Education and Skills, Sanctuary Buildings, Great Smith Street, London, SW1P 3BT.

10.3. Er mwyn hawlio'r taliad, dylai'r athrawon lenwi'r adran berthnasol o'r ffurflen a roddwyd iddynt yn ystod eu hyfforddiant yng Nghymru. Dylent ei chyflwyno wedyn i'r ysgol, a fydd yn anfon y manylion ymlaen at Brif Swyddog Addysg yr Awdurdod Addysg Lleol. Gwneir y taliad fel rhan o gyflog yr athro / athrawes.

ATODIAD A

## Cymhellion Hyfforddi Athrawon - Cwestiynau Technegol

**A yw'r grant hyfforddi'n drethadwy?**

Yn ôl a ddeallwn, nid yw'r grant hyfforddi'n drethadwy yn achos hyfforddeion amser llawn. Yn achos hyfforddeion rhan-amser, gallai'r grant fod yn drethadwy; mae'n dibynnu ar faint eu hincwm trethadwy mewn unrhyw flwyddyn benodol. Dylai pob myfyriwr, fodd bynnag, drafod ei sefyllfa unigol gyda Chyllid y Wlad.

**Beth fydd effaith y grant hyfforddi ar ffioedd?**

Ni fydd y grant hyfforddi'n effeithio ar hawl myfyrwyr o'r gwledydd cartref neu o'r UE i ryddhad o'r ffioedd hyfforddiant am gyrsiau TAR.

**Beth fydd effaith y grant hyfforddi ar fenthyciadau myfyrwyr?**

Mae'n bosibl na fydd angen i'r rhai sy'n cael y grant hyfforddi i ychwanegu at unrhyw fenthyciadau myfyrwyr, na chymryd benthyciadau o'r newydd; (ond bydd angen iddynt wneud cais i gymhwyso am gymorth myfyrwyr er mwyn cael rhyddhad o'r ffioedd hyfforddiant). Mae'r Llywodraeth fodd bynnag wedi penderfynu na fydd cael y grant hyfforddi yn lleihau'r hawl i gymorth myfyrwyr.

**Beth fydd effaith y grant hyfforddi ar fudd-daliadau?**

Ni ellir datgan rheol bendant ynglþn â hyn – mae'n dibynnu ar y math o incwm a gymerir i ystyriaeth wrth asesu hawl i'r budd-dâl penodol sydd dan sylw. Gellir cael cyngor pellach gan yr Asiantaeth Fudd-daliadau.

**A fydd y grant hyfforddi'n sbarduno ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr?**

Nid tra'r ydych dan hyfforddiant amser llawn. Gall ennill cyflog fel athro / athrawes sbarduno ad-daliadau– fel y gall unrhyw swydd arall. Os ydych yn dilyn cwrs hyfforddiant rhan-amser, mae'ch rhwymedigaeth yn dibynnu ar faint y cyflog a enillwch – a yw'n ddigon mawr i sbarduno ad-daliadau ai peidio.

**A fydd y grantiau addysgu'n drethadwy?**

Deallwn y byddant, ond dylai unigolion ofyn cyngor Cyllid y Wlad ynglþn â'u sefyllfa bersonol eu hunain.

**A fydd y grantiau addysgu'n bensiynadwy?**

Na fyddant.

**A gyfunir y grantiau addysgu i ddibenion pensiwn?**

Na wneir.